Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 28.01.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cymru yn symud i Lefel Rhybudd 0

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd Cymru yn dychwelyd i Lefel Rhybudd 0 o heddiw ymlaen, 28 Ionawr 2022. I fusnesau, mae hyn yn golygu:

- Gall clybiau nos ailagor.
- Bydd y gofyniad cyffredinol o gadw pellter cymdeithasol o 2m ym mhob safle sy'n agored i'r cyhoedd a phob gweithle yn cael ei ddileu.

- Ni fydd y rheol chwe pherson yn berthnasol mwyach wrth ymgynnull mewn safleoedd a reoleiddir, megis lletygarwch, sinemâu a theatrau.
- Ni fydd angen i safleoedd trwyddedig ddarparu gwasanaeth bwrdd yn unig a chasglu manylion cyswllt mwyach
- Bydd gweithio gartref yn dal i fod yn rhan o gyngor Llywodraeth Cymru ond ni fydd hyn yn ofyniad cyfreithiol mwyach

I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru-4

# COVID-19: Mesurau sy'n parhau ar Lefel Rhybudd 0

Mae'r mesurau canlynol yn parhau i fod ar waith ar Lefel Rhybudd 0

- ASESIADAU RISG
  Mae cynnal asesiad risg coronafeirws yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol i bob busnes, cyflogwr a threfnydd digwyddiadau ac mae'n rhaid gweithredu mesurau rhesymol i leihau'r risg o coronafeirws: https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

- GORCHUDDION WYNEB
  Mae angen gorchuddion wyneb yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus dan do a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac eithrio lleoliadau lletygarwch: https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-canllawiau-ar-y-mesurau-iw-cymryd-gan-gyflogwyr-rheolwyr-mangreoedd

- PÀS COVID
  Mae angen Pàs Covid o hyd i fynd i ddigwyddiadau dan do ac

awyr agored mwy, clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd:
https://llyw.cymru/pas-covid-canllawiau-ar-gyfer-busnesau-digwyddiadau

- HUNANYNYSU (canllawiau wedi eu diweddaru)
  Mae'n rhaid i bawb i hunanynysu os ydynt yn profi'n bositif am coronafeirws neu os ydynt yn 18 oed neu'n hŷn ac nad ydynt wedi'u brechu'n llawn a'u bod yn gyswllt agos i rywun sydd wedi profi'n bositif.
  O heddiw ymlaen, (28 Ionawr 2022), bydd pobl sy'n profi'n bositif am COVID-19 yn gallu gadael hunanynysu ar ôl 5 diwrnod llawn os oes ganddynt brawf llif unffordd negyddol ar ddiwrnod 5 eu cyfnod hunanynysu ac ail brawf negyddol y diwrnod canlynol. Bydd cymorth ariannol drwy'r Cynllun Cymorth Hunanynysu yn dychwelyd i'r taliad gwreiddiol o £500 i gydnabod y cyfnod byrrach. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru i'w gweld ar:
  https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu

Mae cardiau gweithredu mesurau rhesymol wedi eu diweddaru ar gyfer nifer o sectorau ar gael ar:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-cardiau-gweithredu-mesurau-rhesymol-ar-gyfer-busnesau-sefydliadau

Mae'r canllawiau diweddaraf Lefel Rhybudd 0 i fusnes ar gael ar:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

## RECRIWTIO: Ffair swyddi lletygarwch Gwaith Gwynedd

Mae menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn bwriadu cynnal ffeiriau swyddi mewn person ar gyfer y sector lletygarwch mewn sawl lleoliad led-led Gwynedd, rhwng canol Chwefror a

dechrau Mawrth. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Gallwch hefyd hysbysebu ar Hysbysfwrdd Swyddi Gwaith Gwynedd trwy fynd i: https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# DYSGU: MADE Cymru – cyrsiau yn dechrau 4 Chwefror 2022

Mae llefydd wedi eu hariannu'n llawn bellach ar gael ar raglenni MADE Cymru ar gyfer gweithgynhyrchwyr, 'Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0' a 'Rheoli Arloesedd'. Mae'r cyrsiau yn dechrau yn Chwefror 2022, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/

neu e-bostiwch: MADE@uwtsd.ac.uk

# IECHYD & DIOGELWCH: Canllawiau gweithio ar uchder

Mae canllawiau diweddaraf yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n dangos yr hyn y mae angen i gyflogwyr ei wneud i ddiogelu eu gweithwyr pan fyddant yn gweithio ar uchder i'w gweld ar:

https://www.hse.gov.uk/work-at-height/index.htm

# DIOGELWCH: Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn annog sefydliadau'r DU i gryfhau eu gwydnwch seiberddiogelwch

Anogir sefydliadau'r DU i gymryd camau i gryfhau eu gwydnwch seiberddiogelwch mewn ymateb i'r digwyddiadau seiber maleisus yn yr Wcráin a'r cyffiniau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

https://www.ncsc.gov.uk/news/uk-organisations-encouraged-to-take-action-around-ukraine-situation

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru